agic hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Old Oak, Caerfyrddin
# Dyddiad y gweithgarwch: 27 Ionawr 2022

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mawrth 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80391-774-0

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Old Oak, Caerfyrddin, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Old Oak yn bractis pwrpasol wedi'i osod dros un llawr. Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o
nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn giplun o'r safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r rheolwr ardal ar 27 Ionawr 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol mwyaf diweddar
- Asesiad risg COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol yn sgil y pandemig COVID-19. Gwnaethom hefyd gwestiynu y rheolwr cofrestredig am y newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd er mwyn caniatáu i gleifion gael eu gweld yn ystod y pandemig COVID-19 ac i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 o fewn yr ardaloedd cymunol ac ystafelloedd triniaeth.

Fe'n hysbyswyd bod yr amgylchedd yn y practis wedi cael ei asesu ar ddechrau'r pandemig COVID-19 er mwyn gwella gwaith rheoli heintiau. Er mwyn lleihau nifer y cleifion yn y practis, gweithredwyd polisi drws caeedig, sy'n golygu mai dim ond cleifion ag apwyntiadau fyddai'n gallu mynd i mewn i'r practis. Yn fwy diweddar, mae'r practis wedi ailddechrau polisi drws agored. O ganlyniad i leoliad y practis, dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o gleifion sy'n cerdded i mewn i'r practis yn mynychu apwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis arwyddion eglur wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa yn hyrwyddo cadw pellter cymdeithasol. Cawsom ein hysbysu bod gan y practis ardal dderbynfa fawr sy'n gallu dal chwe claf ar yr un pryd yn braf wrth lynu at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol. Wrth ddod i mewn i'r practis, rhoddir gwybod i'r holl gleifion y dylid gwisgo gorchuddion wyneb, oni bai eu bod wedi'u heithrio, ac y dylid ond eu tynnu pan ofynnir iddynt wneud hynny gan aelod o staff.

Gwnaethom ofyn pa fesurau oedd ar waith i hysbysu'r cleifion am y gweithdrefnau diogelwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Cawsom wybod y cynhelir asesiad risg claf ac asesiad risg COVID-19 dros y ffôn neu e-bost cyn i'r claf fynychu'r practis. Mae'r asesiadau risg hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch iechyd corfforol y claf yn y gorffennol a'r presennol, ynghyd â sgrinio COVID-19. Darperir gwybodaeth gyfredol yn y practis hefyd. Caiff yr holl gleifion eu hysbysu bod angen iddynt fynychu'u hapwyntiad ar eu pen eu hunain oni bai fod angen cymorth ychwanegol gan ofalwr.

Dywedwyd wrthym fod chwe ystafell driniaeth yn y practis a bod pob un o'r ystafelloedd triniaeth hyn â'r cyfarpar priodol i gyflawni gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.[1] Mae gan y practis system awyru ac echdynnu aer ym mhob ystafell driniaeth sy'n cynorthwyo i dynnu aer halogedig. Mae'r holl apwyntiadau wedi'u trefnu i alluogi cyfnod segur[2] digonol ac i alluogi digon o amser i ddiheintio'r ardal rhwng y cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl offer nad yw'n hanfodol yn cael eu tynnu o'r ystafell driniaeth yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol a bod ail nyrs ddeintyddol wastad ar gael y tu allan i'r ystafell driniaeth i sicrhau nad oes angen i'r holl staff y tu mewn i'r ystafell driniaeth adael tra bo'r weithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn digwydd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn trin grŵp poblogaeth amrywiol a'i fod yn gwbl hygyrch i gleifion anabl, gyda mannau parcio i'r anabl, drws mynediad awtomataidd, a thoiledau mynediad i'r anabl â chanllawiau ar gael. Mae'r holl ystafelloedd triniaeth yn cynnwys yr holl offer i gynorthwyo cleifion â symudedd cyfyngedig. Cawsom ein hysbysu bod gan y practis nifer o gleifion sy'n dymuno siarad drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y practis nifer o staff sy'n ddwyieithog ac sy'n gallu siarad Cymraeg â'r cleifion hyn. Dywedwyd wrthym fod gan y practis hefyd ddefnydd o wasanaeth cyfieithu o bell sydd ar gael drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisi glanhau
- Polisi COVID-19
- Cofnodion yr awtoclaf
- Cofnodion uwchsonig
- Amserlenni glanhau

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnynnau.
[2] Amser segur yw'r amser yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom ddogfennau amrywiol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Gwelsom ddogfennau gweithdrefnol mewn perthynas â dadheintio offerynnau ac offer deintyddol ar gyfer pob ystafell driniaeth yn y practis. Gwelsom dystiolaeth hefyd o wiriadau dyddiol ac wythnosol o'r awtoclaf, gwiriadau dyddiol o'r glanhawyr uwchsonig, a gwiriadau atal a rheoli heintiau dyddiol, ynghyd â gwiriadau amgylcheddol ar gyfer pob ystafell driniaeth.

Cawsom yr archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 diweddaraf, ynghyd â chamau gwella a nodwyd. Cawsom ein hysbysu bod yr holl gamau a nodwyd wedi'u cymryd.

Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff dyddiol i drafod unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r polisïau neu'r gweithdrefnau, ynghyd ag arweiniad newydd sydd wedi'i ryddhau gan gyrff allanol megis Prif Swyddog Deintyddol Cymru neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn ogystal â chyfarfodydd dyddiol, mae'r rheolwr cofrestredig yn cynnal yr holl gyfarfodydd chwarterol staff, ynghyd â chyfarfodydd proffesiynol deintyddol bob mis, lle mae atal a rheoli heintiau yn bwnc safonol. Mae gan y practis hefyd system negeseuon electronig lle y gellir rhannu unrhyw bolisïau neu weithdrefnau a ddiweddarwyd gyda staff yn syth.

Cawsom ein hysbysu gan y darparwr cofrestredig bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i leihau'r risg heintio ac amddiffyn y cleifion wrth gynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol. Cyn i'r cleifion gyrraedd y practis ar gyfer unrhyw driniaethau sy'n weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol, cynhelir galwad ffôn lle yr ymgymerir ag asesiad risg i nodi pa offer sydd eu hangen ac i alluogi'r practis i baratoi ymlaen llaw.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a bod gorsafoedd diheintio dwylo trwy gydol y practis i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Mae'r holl leoliadau diheintio dwylo yn cael eu monitro yn rheolaidd fel rhan o'r amserlen lanhau a'r gwiriadau dyddiol a gynhelir gan y staff yn y practis.

Mae'r holl staff wedi derbyn prawf ffitio ar gyfer masgiau FFP3[3] ac yn gwisgo cyfarpar diogelu personol ychwanegol megis menig, ffedogau a feisorau wrth drin cleifion. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol gwell yn gywir. Cawsom ein hysbysu gan y rheolwr cofrestredig bod yr holl staff yn cael eu hasesu'n barhaus i sicrhau eu bod yn glynu at bolisïau presennol mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg i gyflawni eu rolau yn ystod y pandemig COVID-19 a bod asesiadau risg yn cael eu cyflawni bob blwyddyn, neu'n gynt os bydd angen, i sicrhau bod yr asesiadau yn aros yn fanwl gywir.

[3] Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

Cawsom ein hysbysu bod gan y practis ardal gwisgo a diosg[4] lle mae staff yn gallu cael gwared ar unrhyw gyfarpar diogelu personol a ddefnyddiwyd yn gywir. Mae gan yr ardal hon arwyddion sy'n atgoffa'r staff am eu dyletswydd i wisgo cyfarpar diogelu personol uwch a hyrwyddo dulliau diogel ar gyfer gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym hefyd fod yn rhaid i'r holl staff newid i'w gwisg neu ei dynnu i ffwrdd cyn dod i mewn neu adael y practis, mesur a roddwyd ar waith i liniaru'r risg o groes-halogi.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi darparu hyfforddiant ychwanegol i'r nyrs ddeintyddol arweiniol a'r nyrs ddihalogi er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar diogelu personol yn cael ei archebu'n gywir a bod y stoc yn cael ei gwirio. Mae gan y practis stoc wedi'i darparu gan y GIG a darparwr annibynnol, gan ganiatáu i lefelau stoc aros yn ddigonol bob amser.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl gleifion yn derbyn asesiad yn ystod camau gwahanol o driniaeth i sicrhau bod y claf a'r staff yn parhau i fod yn ddiogel drwy'r amser. Cawsom wybod hefyd y gallai fod achlysuron lle bod gofyn am driniaeth ddeintyddol ar unwaith ar gyfer claf a allai fod yn arddangos symptomau COVID-19 neu fod â diagnosis wedi'i gadarnhau. Yn yr achosion hyn, cawsom wybod y cynhelir gwaith sgrinio uwch i werthuso a oes angen y driniaeth ar frys. Os nad oes angen rhoi'r driniaeth yn frys, byddai'r apwyntiad yn cael ei ohirio i ddyddiad arall. Pe bai angen rhoi'r driniaeth yn frys, rhoddid apwyntiad i'r claf a gofynnid iddo aros tu allan i'r adeilad nes cael gwybod i ddod i mewn. Byddai'r claf yn cael ei dywys yn uniongyrchol i ystafell driniaeth i ymgymryd ag unrhyw driniaeth ac yna'i dywys yn syth allan o'r adeilad, gan sicrhau y cyswllt lleiaf ag unrhyw aelod o staff neu gleifion eraill. Bydd yr ystafell driniaeth a ddefnyddiwyd wedyn yn cael ei dihalogi'n llawn cyn y defnydd nesaf.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Fe wnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad yr unigolyn cyfrifol)
- Datganiad o ddiben[5]

[4] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

[5] Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Hefyd, dylai restru'r mathau o driniaethau, cyfleusterau a'r holl wasanaethau eraill sy'n cael eu darparu yn neu at ddibenion y practis deintyddol preifat, gan gynnwys manylion yr anghenion amrywiol y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu cyflawni.

- Taflen gwybodaeth i gleifion[6]
- Polisi cydsyniad gwybodus
- Polisi parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Polisi COVID-19
- Archwiliad cardiau cofnod
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor trwy gydol y pandemig. Yn ystod cyfnodau cynnar y pandemig, roedd y practis yn gweithredu gyda staff cyfyngedig. Byddai nyrs ddeintyddol ar gael yn y practis i gymryd galwadau ffôn a chynnig cyngor hunanofal dros y ffôn lle bo'n bosibl. Pan nad oedd hyn yn bosibl, byddai'r nyrs ddeintyddol yn gwneud apwyntiad i'r claf fynychu'r practis. Mae'r practis yn rhan o grŵp ehangach o bractisiau a byddai'n gwneud apwyntiad ar gyfer y claf yn y practis agosaf lle roedd deintydd ar gael. Os na allai'r claf deithio i'r deintydd hwnnw, byddai'r deintydd yn teithio i'r practis agosaf i'r claf.

Gwnaethom adolygu'r daflen gwybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben, a darparodd y ddwy ddogfen hyn yr wybodaeth berthnasol am yr holl wasanaethau a gynigir a strwythur y practis. Gwnaethom hefyd weld nifer o bolisïau gwahanol; roedd yr holl bolisïau'n gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol ar gyfer eu pwrpas. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl bolisïau yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u hadolygu'n flynyddol. Caiff unrhyw ddiweddariadau sydd eu hangen rhwng adolygiadau eu gwneud a chaiff y newidiadau eu rhaeadru i lawr i staff gan ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol fel y soniwyd yn flaenorol.

Gwelsom bolisi parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb a oedd yn amlinellu llwybrau clir ac yn darparu manylion am y rhan fwyaf o ddigwyddiadau posibl. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl bolisïau ar gael ar gyfer yr holl staff i'w gweld ar unrhyw adeg ac wedi'u cadw yn y swyddfa tu ôl i ardal y dderbynfa.

Gofynasom i reolwr y practis am y defnydd o staff asiantaeth ac a ddefnyddir staff asiantaeth yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn rhan o grŵp wedi'i ffurfio o ddau bractis deintyddol arall. Mae hyn yn caniatáu cyflenwi unrhyw ddiffyg staff gan aelodau staff o bractis partner arall.

Eglurodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer gwirio offer a ddefnyddir mewn achos brys a meddyginiaethau. Mae gan y nyrs ddeintyddol arweiniol gyfrifoldeb dros wirio bod yr holl offer brys a meddyginiaethau wedi'u stocio a heb ddyddio. Dywedwyd wrthym fod yr holl offer brys a meddyginiaethau yn destun gwiriad stoc a bod cofrestr gynhwysfawr yn amlygu dyddiadau dod i ben ar waith, gan ganiatáu ffordd rwydd o fonitro stoc. Caiff gwiriadau wythnosol eu

[6] Cyflwynir y daflen gwybodaeth i gleifion i'r cleifion ac mae'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ynghylch casglu barn cleifion, mynediad i'r adeilad, a chadw apwyntiadau.

cynnal ar yr offer brys hefyd, gan gynnwys y diffibriliwr, gyda gwiriadau dyddiol ar lefelau'r silindr ocsigen.

Cawsom gopi o'r archwiliadau cerdyn cofnod diweddaraf ar gyfer yr holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis. Roedd yr archwiliad yn gadarnhaol iawn ac roedd pob cerdyn archwiliad wedi'i adolygu ac yn cynnwys sylwadau, gan gynnwys cryfderau, gwendidau, a chamau arfaethedig i wella. Cawsom hefyd yr archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) diweddaraf. Roedd yr archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn cynnwys misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2021 ac yn dangos bod canran fach o luniau yr oedd angen eu haildynnu. Pan ofynnwyd am hyn, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn o ganlyniad i ffactorau megis cleifion yn symud yn ystod y llun; roedd hyn yn ganran fach ac ond yn cael effaith ar tua 1% o'r lluniau a dynnir.

Gwnaethom hefyd weld y cofnod hyfforddiant gorfodol diweddaraf ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod anawsterau wedi bod wrth drefnu hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig COVID-19. Er gwaethaf hyn, roedd y cofnod hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff yn y practis wedi cynnal cydymffurfedd â'r holl hyfforddiant gorfodol a bod yr holl staff deintyddol proffesiynol wedi cynnal eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.[7]

Eglurodd y rheolwr cofrestredig y broses o adrodd am ddigwyddiadau i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac asiantaethau rheoleiddiol eraill. Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i gyrff rheoleiddiol a bod gan y rheolwr cofrestredig oruchwyliaeth derfynol o'r broses.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[7] Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r gweithgareddau dysgu y mae gweithwyr proffesiynol yn ymgysylltu â nhw i ddatblygu a gwella eu galluoedd.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.